Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Adroddiad Blynyddol

2010

Adroddiad Blynyddol Ebrill 2010
Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Cyflwyniad

Mae Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) bellach wedi cwblhau ei drydedd flwyddyn o gydweithio i gryfhau a gwneud gwelliannau i gyflenwi'r Gwasanaeth yng Nghymru. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, sy'n ymwneud â neu'n effeithio ar, gyfiawnder troseddol. Mae gan y sefydliadau sy'n aelodau gylch gorchwyl un ai penodol ar gyfer Cymru, Lloegr a Chymru, neu i'r Deyrnas Unedig gyfan. Yn sefydliadau wedi'u datganoli a heb eu datganoli, daw'r Pwyllgor â dylanwadwyr allweddol yn y maes cyngor cyfreithiol ar draws y sectorau ynghyd.

Mae pob cyfarfod o Bwyllgor Cymru yn rhoi llwyfan i aelodau i godi materion sy'n effeithio ar gyflenwi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru yn effeithlon. Yn ychwanegol, ac efallai yn bwysicach, mae'n amlygu lle mae gwahaniaeth ar hyn o bryd neu wahaniaeth yn datblygu mewn deddfwriaeth, polisi neu ymarfer i'r hyn a welir yn Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu gan y Pwyllgor hefyd rôl wrth ochr y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i nodi 60ain pen-blwydd cymorth cyfreithiol a rhoi sylw i'r newidiadau a ddigwyddodd yn nhirlun gwasanaethau cyngor yn ystod y cyfnod hwn.

Themâu Allweddol ar gyfer 2009/10

Ffocws ar Bobl Ifanc: Dydd Gwener 22 Ionawr 2010, Clwb Rygbi Pen-y-bont ar Ogwr

Trefnodd Erthygl 12, corff eiriolaeth ieuenctid sy'n seiliedig yn Sir Benfro, ddigwyddiad ymgysylltu ar ran Pwyllgor Cymru gyda grŵp o bobl ifanc o ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Cynlluniwyd y digwyddiad i gasglu barn drwy weithdai'n ymchwilio sut y dewisodd pobl ifanc neu sut fyddai orau ganddynt gael mynediad i gyngor a gwybodaeth yng nghyswllt cyngor a chefnogaeth cyfreithiol. Daeth y bobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd ac roeddent wedi profi amrywiaeth o anawsterau. Roedd eu cefndir yn cynnwys cyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid, bod yng ngofal yr awdurdod lleol neu wedi gadael gofal yr awdurdod lleol, ymgyfraniad gydag asiantaeth gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref a phobl ifanc gydag anabledd.

Dangosodd y digwyddiad yr heriau lluosog y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth ddeall eu hawliau a lle medrant geisio help. Ystyriwyd ei bod yn hollbwysig peidio tybio y byddai gan bob person ifanc yr un anghenion a dewisiadau ar gyfer cael mynediad i wasanaethau cyngor. Cynhyrchodd Erthygl 12 adroddiad gwerthuso ar gyfer y digwyddiad i'r Pwyllgor ei ystyried a fyddai wedyn ar gael ar dudalennau gwefan Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru.

Bu'r digwyddiad yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar ymgysylltu gyda chleientiaid ac roedd yn awr yn edrych sut i hyrwyddo Gwasanaethau Cyngor Cyfreithiol yn fwy eang, yn cynnwys yr opsiynau yng Nghymru i gyrraedd pobl ifanc, er enghraifft ProMo Cymru. Ystyrir hefyd sut y medrai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol symud ymlaen gyda'r cysyniad o sefydlu grwpiau cleientiaid ar gyfer dibenion ymgysylltu.

Mesurau Dirwasgiad

Aeth y dirwasgiad â llawer o sylw'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf a chanolbwyntiodd trafodaeth ar sut yr oedd y sefydliadau sy'n aelodau'n ymateb i'r heriau a achosir ganddo. Crëwyd eitem safonol ar yr agenda i ystyried effaith y dirwasgiad ar yr angen am wasanaethau cyfreithiol cymunedol. Cafwyd gwybodaeth werthfawr gan Gadeirydd Fforwm Darparwyr Annibynnol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru, yn cynrychioli darparwyr cyngor ar draws y sector, parthed y materion sy'n wynebu darparwyr gwasanaeth ar lawr gwlad a newidiadau yn y tueddiadau ar gyfer y galw am gyngor.

Rhannodd pob aelod wybodaeth am waith penodol, cynlluniau neu ymchwil yr oeddent yn eu cynnal er mwyn mynd i'r afael ag effaith y dirwasgiad, un ai ar eu sefydliad hwy neu ar yr ystod gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Nodwyd fod pwysau sylweddol ar gyllideb pob gwasanaeth cyhoeddus, gan olygu y ceisir arbedion, mwy o gydweithio ac mewn rhai achosion doriadau posibl mewn gwasanaethau.

Cynllun Achub Morgeisi

Yn ystod misoedd olaf 2009, derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth fanwl ar y Cynllun Achub Morgeisi a chais i gefnogi ymestyn cynllun peilot, yn anelu i gynyddu rhediad effeithlon y cynllun Achub Morgeisi ar lefel leol.

Cafodd cynllun peilot Ymyriad Cynnar sy'n gweithredu ledled Sir Gaerfyrddin ei ddatblygu ar y cyd rhwng Cyfarwyddwr Cymru y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, cwmni cyfreithwyr lleol a Shelter Cymru. Lluniwyd protocol yn hwyluso a galluogi gweithio ar y cyd ar draws llywodraeth leol, y farnwriaeth, cynghorwyr cyfreithiol a Chymdeithasau Tai lleol. Canlyniad y gwaith hwn yw y gallodd mwy o deuluoedd aros yn eu cartrefi drwy Gynllun Achub Morgeisi Llywodraeth Cynulliad Cymru neu drwy wasanaethau cefnogaeth eraill. Mae dangosyddion cynnar y cynllun peilot yn arwydd cryf y byddai mwy o waith partneriaeth leol ar draws Cymru i symleiddio proses y Cynllun Achub Morgeisi o fudd.

Bu Annette Bell, y cynghorydd cyfreithiol yn ymwneud â datblygu'r cynllun Ymyriad Cynnar yng nghyfarfod y Pwyllgor ac amlinellodd ei phrofiad o fod

ynglŷn â'r cynllun a'r effaith a gafodd ar ei chleientiaid oedd yn cael anawsterau i dalu eu morgais.

Cymeradwyodd y Pwyllgor waith y cynllun peilot a rhoi ei gefnogaeth lawn i'w ymestyn ar draws Cymru. Dosbarthodd SOLACE wybodaeth a hyrwyddo ymestyn y cynllun peilot ymysg prif weithredwyr awdurdodau lleol ac uwch swyddogion llywodraeth leol.

Cyfarfodydd 2008/09

5 Mehefin 2009:

Uned Data Llywodraeth Leol (Cyfarfod gyda ffocws darparydd)

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod busnes byr cyn cyfarfod rhyngweithiol gydag aelodau Fforwm Gwasanaethau Cyngor Annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Cymunedol a nifer o wasanaethau cyngor rheng flaen o gylch Gwent:

- Cafodd papur trafod ar rôl a chylch gorchwyl posibl ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol ei ystyried a'i drafod. Ystyriodd y drafodaeth ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a'i argymhellion y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder edrych ar faterion llywodraethu yn ymwneud â chomisiynu cymorth cyfreithiol yng Nghymru. Daeth i'r casgliad y dylid ailystyried trefniadau llywodraethu a'u cynnwys mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y Cynulliad, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gweinidogion yng nghyswllt Strategaeth Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn y dyfodol.
- Ymunodd darparwyr cyngor a chyrff cynrychioli darparwyr â'r Pwyllgor am ail ran y cyfarfod. Hwyluswyd y rhan hon o'r cyfarfod gan Fforwm Darparwyr Annibynnol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gan gynnal gweithdai am ddiffiniadau a chymhlethdod gwasanaethau cyngor. Casgliad y cyfarfod oedd y dylid rhoi ystyriaeth i ffocws cleient ar ddynodi angen yn ogystal â materion ynghylch cymhlethdod ymyriadau cyngor pan fo arianwyr a darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio gwasanaethau.

Yr Eisteddfod:

6 Awst 2009

Bu aelodau Pwyllgor Cymru a Carolyn Regan, Prif Weithredwr y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn bresennol yn yr Eisteddfod yn y Bala. Dan ymbarél partneriaid Cyfiawnder ar draws Cymru, roedd gan y Comisiwn stondin arddangos yn hyrwyddo Cyngor Cyfreithiol Cymunedol a 60ain pen-blwydd cymorth cyfreithiol.

Cynhaliwyd derbyniad yn yr Eisteddfod gyda'r siaradwyr yn cynnwys Elfyn Lwyd AS, Cemlyn Williams o CAB Gwynedd a Hywel Davies, cyfreithiwr lleol.

I gyd-daro gyda'r Eisteddfod, cynhwyswyd manylion am Gyngor Cyfreithiol Cymunedol yn The Big Issue a chynhwyswyd llyfryn arbennig.

Dydd Gwener, 11 Medi 2009:

Novotel, Caerdydd

- Cytunwyd y gwahoddir Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i gael cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y dyfodol. Roedd y Comisiynydd wedi mynegi dymuniad i hyn ddigwydd. Byddid yn ymestyn y gwahoddiad unwaith y cwblhawyd y materion llywodraethu ar gyfer Cymru.
- Trafododd y Pwyllgor gontractau sifil y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i'w caffael yn 2010. Nodwyd y cyhoeddwyd cynlluniau caffaeliad ar gyfer Cymru yn ôl y rhanbarthau a amlinellwyd yn 'Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru' ar gyfer diben comisiynu ar y cyd. Croesawodd y Pwyllgor ymagwedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i alluogi bidio gan gonsortia ar gyfer contractau cyfraith lles cymdeithasol a theimlent y byddai'r dull yma'n cefnogi proffil darparwyr cyngor ar draws Cymru.
- Byddai'r Pwyllgor yn ailystyried cyd-gomisiynu yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth Dichonolrwydd Llywodraeth y Cynulliad ar fodelau comisiynu amgen. Byddid hefyd yn ystyried argymhellion yn dilyn astudiaeth yr Arglwydd Bach o gyngor cyfreithiol, yn ogystal ag ymchwil y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cymunedol ar broses a chanlyniadau gwasanaethau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol.
- Nododd y Pwyllgor fod yr arolwg allanol o swyddogaeth polisi yn y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gohirio'r adolygiad arfaethedig o lywodraethu ar gyfer Pwyllgor Cymru. Roedd hefyd wedi effeithio ar y cynlluniau i recriwtio ail swydd polisi i Gymru a fyddai'n canolbwyntio ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhaglen ddeddfwriaethol Cymru.
- Trafodwyd y Cynllun Achub Morgeisi i Gymru a chynllun peilot llwyddiannus Ymyriad Cynnar yn Sir Gaerfyrdidn fel a nodir ar dudalen 2.
- Rhoddodd Alan Davies o Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi gyflwyniad, yn esbonio gwaith Llys Cyfiawnder Cymunedol Merthyr Tudful. Roedd y siaradwyr gwadd eraill yn cynnwys Ceri Doyle o'r Gronfa Loteri Fawr a Dr Steven Marshall o Uned Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Digwyddiad 60^{ain} Pen-blwydd Cymorth Cyfreithiol:

Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2009

Gwahoddwyd Pwyllgor Cymru i ddathlu 60^{ain} pen-blwydd Cymorth Cyfreithiol yn y Senedd ym Mae Caerdydd.

Cynlluniwyd y digwyddiad i goffau hanes a llwyddiannau cymorth cyfreithiol dros y 60 mlynedd ddiwethaf ac i glywed am gyfeiriad cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd arddangosfa yn dangos achosion o bwys yn hanes cymorth cyfreithiol.

Croesawyd y digwyddiad i'r Senedd gan Dr Brian Gibbons AC, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a chafwyd anerchiadau gan Tom Jones OBE a Paul Davies, Cyfarwyddwr Cymru. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys Aelodau Cynulliad, swyddogion a chynghorwyr awdurdodau lleol, y Farnwriaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Dydd Iau 15 Rhagfyr:

Cyfarfod gyda Syr Ian Magee

Cyfarfu aelodau Pwyllgor Cymru gyda Syr Ian Magee i roi mewnbwn i'r adolygiad o gymorth cyfreithiol yr oedd yn ei gynnal. Trafodwyd materion unigryw i Gymru oherwydd datganoli a'r iaith ynghyd ag enghreifftiau o sut yr oedd sefydliadau eraill, wedi eu datganoli a heb eu datganoli, wedi sefydlu strwythurau llywodraethu o fewn Cymru.

Beth ydyn ni wedi'i gyflawni?

- Mwy o bwyslais a dealltwriaeth o bobl ifanc yng nghyswllt eu hanghenion a'u dewisiadau am wasanaethau cyngor cyfreithiol, yn cynnwys ymarferiad ymgysylltu deinamig.
- Hyrwyddodd Gareth Moss, yn cynrychioli SOLACE, ymestyn cynllun peilot Ymyriad Cynnar ar draws Cymru ymhlith awdurdodau lleol, i alluogi pobl i gael mynediad i'r Cynllun Achub Morgeisi mewn dull mwy amserol ac effeithiol.
- Codi ymwybyddiaeth o gymorth cyfreithiol a'r hyn a gyflawnodd yn y gorffennol drwy ddigwyddiadau proffil uchel yng Nghymru, gan ei gwneud yn bosibl cydnabod gwerth ac effaith cymorth cyfreithiol.
- Sicrhau cynrychiolaeth o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn gan felly sicrhau y caiff anghenion pobl hŷn eu hystyried yn y dyfodol yng nghyswllt gwasanaethau cyngor cyfreithiol.
- Dylanwadu ar ganlyniad adolygiad Syr Ian Magee o gymorth cyfreithiol yng nghyswllt Cymru a llywodraethu Cymru. Dangosodd canlyniad yr adolygiad yr angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ystyried anghenion Cymru wrth iddo fynd â'i argymhellion rhagddynt.

Newidiadau mewn aelodaeth

Bu newidiadau ymhlith yr aelodau yn gynnar yn 2010, yn cynnwys Andy Regan yn cynrychioli Swyddfa Cymru; Gareth Moss yn cynrychioli SOLACE ac Alan Davies yn cynrychioli Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Roedd

cynrychiolwyr newydd yn cael eu cadarnhau ar gyfer pob un o'r sefydliadau hyn.

Cyfarfodydd y Dyfodol:

Mae trefniadau ar y gweill i Bwyllgor Cymru gwrdd deirgwaith yn ystod 2010. Cynhelir y cyfarfodydd fel sy'n dilyn:

Dydd Gwener 4 Mehefin – cyfarfod gyda ffocws ar ddarparwyr
Dydd Gwener 10 Medi yng Nghaerdydd
Dydd Gwener 3 Rhagfyr – cyfarfod gyda ffocws ar ddinasyddion.

Cofnodion Cyfarfodydd:

Mae cofnodion pob cyfarfod ar gael ar dudalennau Cymru gwefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar www.legalservices.gov.uk. Mae'r holl gofnodion a gyhoeddwyd ar gael yn y Gymraeg. Caiff cofnodion cyfarfodydd eu cyhoeddi ar ôl eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau am Bwyllgor Cymru y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, cysylltwch â:

Nicola Cragg
Corporate Governance
Legal Services Commission
4 Abbey Orchard Street
Llundain/London
SW1P 2BS
020 7783 7000
Nicola.cragg@legalservices.gov.uk

Atodiad 1

Pwyllgor Cymru Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol – Sefydliadau sy'n Aelodau

CAB Cymru (yn cynrychioli Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol y CLS)
CAFCASS Cymru
Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)Cymru
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
Llais Defnyddwyr Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
SOLACE Cymru
Swyddfa Comisiynwyr Plant Cymru
Swyddfa Cymru

Atodiad 2

Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) – Cylch Gorchwyl

Diben

1. Cryfhau a gwella cyflenwi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru drwy ddod â rhanddeiliaid cyfiawnder allweddol ynghyd.

2. Dynodi sut y bydd newidiadau mewn strwythurau gwleidyddol, y gyfraith a pholisi cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyngor cyfreithiol a chynllunio ar gyfer yr effeithiau hynny.

3. Dynodi gwasanaethau sy'n codi yng Nghymru y dylai Pwyllgor Ymgynghori Cenedlaethol Lloegr a Chymru fod yn gwybod amdanynt yn ei drafodaethau.

4. Hwyluso rhannu gwybodaeth am:
    a. yr angen am wasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru, yn dynodi rhaglenni parhaus a'r dyfodol yn yr ardal ac ystyried sut y medrir eu hyrwyddo a chyflawni gwell canlyniadau a gwerth drwy gydlynu'r gweithgareddau hyn yn fwy effeithiol.
    b. cyflenwi cyfredol gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru
    c. darparwyr gwasanaethau cyngor cyfreithiol yng Nghymru.

5. Hwyluso cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar anghenion cyngor cyfreithiol cleientiaid.

6. Datblygu ffyrdd o drin materion systemig neu "achos gwraidd" wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus (a phreifat) sy'n achosi problemau cyfreithiol i gleientiaid.

7. Rhoi llais i Gymru yn natblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Aelodaeth Fynegol

Cynrychiolwyr:
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Llywodraeth Cynulliad Cymru (cynrychiolaeth addas o Unedau o fewn Llywodraeth y Cynulliad)
CAFCASS Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Llais Defnyddwyr Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS)
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol CLS Cymru

SOLACE Cymru
Swyddfa Cymru

Cadeirir y Pwyllgor gan Tom Jones, aelod o'r Comisiwn Gwasanaethau Ariannol. Caiff y Comisiwn hefyd ei gynrychioli gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, cynrychiolydd o Dîm Polisi Sifil y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru.

Ysgrifenyddiaeth
Bydd y Comisiwn yn ymgymryd â dyletswyddau ysgrifenyddol ar gyfer y Pwyllgor, ond gwahoddir papurau ac eitemau agenda gan yr holl sefydliadau a chryf a gynrychiolir.

Cyfarfodydd
Bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau cyfleus i aelodau. Bydd un cyfarfod y flwyddyn yn cynnwys cyfarfod gyda chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chyngor yng Nghymru. Cynigir cynnal y cyfarfod hwn drwy Fforwm Cenedlaethol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru. Bydd un cyfarfod yn cynnwys cyfarfod gyda grŵp ymgynghori cleientiaid, sydd i gael ei sefydlu. Ni fyddir yn talu ffioedd mynychu i aelodau gan y byddant yn mynychu fel cynrychiolwyr eu sefydliadau neilltuol.

Adolygiad
Caiff Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cymru y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ei adolygu'n flynyddol.